Cynorthwyo pobl ifanc i newid y byd: dull ysgol gyfan o ymdrin â thegwch a chynhwysiant

Torrwch y Ffiniau

IOP Sefydliad Ffiseg

Drwy gydweithio mae gan fyfyrwyr, staff, uwch-arweinwyr a llywodraethwyr, yn ogystal â rhieni, gofalwyr a'r gymuned ehangach, i gyd ran hanfodol i'w chwarae er mwyn gwneud yn siŵr nad yw pobl ifanc yn wynebu rhwystrau wrth geisio gwireddu eu potensial llawn.

Ble y mae angen newid?

Wrth i chi archwilio eich lleoliad ac ymchwilio iddo, defnyddiwch ddata a dealltwriaeth (ffurfiol ac anffurfiol) i bennu ffocws ar gyfer gweithgarwch. Mae'r agweddau hyn ar fywyd ysgol yn ffordd dda o roi trefn ar eich meddyliau. Cofiwch feincnodi, cynllunio gweithgarwch a thracio cynnydd.

- **Dulliau ymarfer personol**
  Cynorthwyo addysgwyr i fyfyrio.
- **Y cwricwlwm a dysgu**
  Sicrhau bod deunyddiau a chynnwys yn hyrwyddo lleisiau amrywiol.
- **Cyfathrebu mewnol ac allanol**
  Yn yr ysgol ac â chysylltiadau allanol.
- **Ymgysylltu â'r gymuned**
  Ymgysylltu â rhieni, gofalwyr a'r gymuned ehangach.
- **Gwrando ar bobl ifanc**
  Sicrhau bod lleisiau pobl ifanc wrth wraidd unrhyw newid.
- **Symud ymlaen, dewisiadau a swyddi**
  Cadw drysau'n agored i lwybrau'r dyfodol.

1/4

Dim ond 1 o bob 4 o fyfyrwyr ffiseg ôl–16 sy'n ferched, tra mae llai na chwarter y myfyrwyr sy'n astudio llenyddiaeth Saesneg yn fechgyn.*

7

Mae gan ddarparwyr y blynyddoedd cynnar ac ysgolion cynradd ran hollbwysig i'w chwarae, oherwydd mae ymchwil yn dangos bod stereoteipiau yn dylanwadu'n fawr ar blant pan fyddant mor ifanc â 7 oed ac y bydd plant yn credu nad yw rhai llwybrau'n addas iddynt.**

Sut y gallaf hybu newid ar lefel ysgol gyfan?

Gallwch fod yn gyfrwng ar gyfer newid drwy roi sylw i'ch proses feddwl, y modd yr ydych yn rhyngweithio â phobl ifanc a chydweithwyr, ac unrhyw ragfarnau anymwybodol a allai fod gennych chi neu bobl eraill.

01

Cam 1. Cydnabod a derbyn

Rydym yn cael ein bombardio â stereoteipiau ac amryw ragfarnau o oedran cynnar. Ar ôl sylwi ar hynny, rydych yn dechrau gweld sut y maent yn dylanwadu ar y modd yr ydym i gyd yn gweld y byd.

02

Cam 2. Bod yn ymwybodol

Rydych yn nodi'r effaith bosibl ar ryngweithio a phenderfyniadau ac yn cymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael â rhagfarnau ac ymddygiad annefnyddiol.

03

Cam 3. Cryfhau polisïau a gweithdrefnau

Rydych yn hyrwyddo polisïau ac arferion sy'n hybu tegwch wrth ymarfer o ddydd i ddydd, mewn agweddau sy'n amrywio o'r modd yr ydych yn rhyngweithio â myfyrwyr i gwricwla.

04

Cam 4. Mae parhau'n wybodus yn troi'n norm

Rydych chi a'ch cydweithwyr yn ymwybodol yn barhaus o effaith annhegwch. Mae ei effeithiau'n cael eu trafod yn agored, ac rydych yn rhoi ac yn derbyn cyngor yn hyderus pan fydd modd gwneud gwelliannau.

Graddfa newid

Mae annhegwch ym maes addysg yn gymhleth. Dyna pam y mae angen dull ysgol gyfan o weithredu, fel bod pawb yn chwarae ei ran i sicrhau newid dros gyfnod o amser.



95%

Mae 95% o bobl ifanc Ddu yn clywed iaith hiliol neu'n gweld hiliaeth mewn ysgolion.***

Mae'r bwlch o ran anfantais mewn addysg ar ei fwyaf ers 2012.****

* Fe welwch chi'r ffeithiau hyn yn adroddiadau Torrwch y Ffiniau am ysgolion. Maent yn cynrychioli'r cyfartaledd ar draws y DU ac Iwerddon, ac wedi'u cymryd o ddata a gyhoeddwyd gan y cyrff perthnasol ar gyfer cymwysterau Safon Uwch, cymwysterau 'Higher' yr Alban a'r Dystysgrif Ymadael. Mae'r adroddiadau dan sylw i'w gweld yma: *iop.org/WholeSchool*

**Arolwg 'Drawing the Future', Education and Employers, 2018.
Gallwch ddarllen mwy yma: *educationandemployers.org/drawing-the-future-report-published*

*** Young and black, 2020.
Gallwch ddarllen mwy yma: *ymca.org.uk/wp-content/uploads/2020/10/ymca-young-and-black.pdf*

**** The FEA Report Card, 2022.
Gallwch ddarllen mwy yma: *faireducation.org.uk/report-card-2022*